# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

# CÔD YMDDYGIAD - Datganiad o fuddiannau personol i'w cynnwys yn y Gofrestr Gyhoeddus o Fuddiannau Aelodau.

**ENW'R CYNGHORYDD: Norman Howell Morgan**

**CYNGOR I GYNGHORWYR**:
Mae'r Gyfraith, a Chôd Ymddygiad y Cyngor, yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddatgan buddiannau personol. Rhaid i chi gofnodi rhai buddiannau personol yn y gofrestr gyhoeddus statudol, o fewn **28 o ddiwrnodau** o'ch ethol i swydd, a rhaid i chi'u diweddaru **o fewn 28 o ddiwrnodau** o unrhyw newid.

(Mae yno eithriad rhag gorfod datgan 'gwybodaeth sensitif'; bydd modd i'r Swyddog Monitro eich cynghori am hyn.)

Mae'r ffurflen hon yn sicrhau fod modd i chi gofnodi'r buddiannau hynny, neu i ddangos nad oes gennych y cyfryw fuddiannau i'w datgan.

Cofiwch y bydd rhaid i chi ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol (gan gynnwys y rheiny yn y Gofrestr hon) lle y maen nhw'n destun trafod mewn cyfarfod - cofiwch edrych ar Gôd Ymddygiad y Cyngor i gael y rheolau am hyn.

Byddwch cystal â llenwi, llofnodi, a dyddio naill ai Blwch A neu Flwch B isod, a chyflwyno'r ffurflen i'r Swyddog Monitro.

Defnyddiwch Flwch C i ddiweddaru'r wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi yn barod.

**BLWCH A - DIM BUDDIANNAU I'W DATGAN**

Does gen i ddim buddiannau sy'n dod o dan yr un o'r categorïau ym Mlwch B isod

Llofnod:

Printiwch eich enw llawn:

Dyddiad:

**BLWCH B - BUDDIANNAU SY'N CAEL EU DATGAN**

1. **Manylion unrhyw gyflogaeth rydych chi'n ymgymryd â hi neu fusnes rydych chi'n ei redeg**

2. **Manylion unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw gwmni rydych chi'n bartner ynddo neu unrhyw gwmni rydych chi'n gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl**

3. **Manylion unrhyw berson, ac eithrio eich Awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a gafwyd gennych chi wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel Aelod**

4. **Manylion unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal eich Awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw**

5. **Manylion unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhyngoch chi, neu gwmni rydych chi'n bartner ynddo, neu rhwng cwmni rydych chi'n gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (4) uchod a'ch Awdurdod**

6. **Manylion unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich Awdurdod**

Mae'r adran yma'n cyfeirio at gyfeiriad cartref yr Aelod ac ystyriwyd ei bod yn wybodaeth sensitif fel y cytunwyd gan Swyddog Monitro'r Cyngor yn unol â Pharagraff 16(1) o God Ymddygiad Aelodau'r Cyngor.

7. **Manylion unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno, a'r tenant yw cwmni rydych chi'n bartner ynddo, cwmni rydych chi'n gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a nodir yn (4) uchod**

8. **Manylion unrhyw gorff rydych chi wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich Awdurdod iddo**

9. **Manylion unrhyw —**

**(a) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;**

**(b) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;**

**(c) corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion;**

**(d) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu**

**(e) clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod,**

**rydych chi'n aelod ohono/ohoni neu mewn safle/swydd o reolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi;**

10. **Manylion unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych chi drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 o ddiwrnodau neu fwy**

Llofnod: N. Morgan

Printiwch eich enw llawn: Norman Morgan

Dyddiad: 14/07/22

| BLWCH C - NEWIDIADAU I'R MANYLION COFRESTRU A WNAED UCHOD |
| --- |
| |